# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | **CYDLYNYDD CYMUNEDAU FFYDD (TYMOR PENODOL TAN FIS MEHEFIN 2027) Mae croeso mawr i fyfyrwyr presennol ymgeisio, cyhyd â'u bod yn gallu cyrraedd gofynion y swydd ar y cyd â**'u hastudiaethau. |
| **YN ATEBOL I:** | Y Pennaeth Cyfleoedd i Fyfyrwyr |
| **CYFLOG:** | Gradd Cydlynydd Undeb Aber: yn dechrau o £27,500 (pro rata) ar hyn o bryd |
| **ORIAU:** | 0.5 Llawn amser (18 awr yr wythnos), i'w weithio'n hyblyg mewn trafodaeth â'r Rheolwr Llinell. |

DYDDIAD YR YSGRIFENNWYD: Awst 2026

DIBEN Y SWYDD

Gwella'r ymdeimlad o berthyn, lles ac ennyn mwy o gyfranogiad ymysg fyfyrwyr o ffydd trwy gefnogi cymunedau bywiog a drefnir eu hunain a gweithio gyda'r Brifysgol a chymunedau cymunedol ehangach i ddatblygu darpariaeth sy'n galluogi myfyrwyr i gymryd rhan yn llawn ac yn hyderus mewn gweithgarwch ffydd. Darparu cymorth gweithredol ar gyfer myfyrwyr cymdeithasau ffydd, gan sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd amrywiol, cynhwysol a chyffrous. Bod y man cyswllt cyntaf i gymdeithasau ffydd, cefnogi pwyllgorau, galluogi gweithgarwch diogel a hygyrch, a helpu myfyrwyr i feithrin cymunedau.

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. **Cymunedau myfyrwyr ffydd**
   - Rhoi i fyfyrwyr y cyfle i fagu ac ymaelodi â chymunedau myfyrwyr o'r un ffydd.
   - Hwyluso cysylltiadau ymysg myfyrwyr ffydd a threfnu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n dathlu eu credoau, eu cymunedau a hyrwyddo eu hanghenion.
   - Bod yn ganolwr dros fyfyrwyr unigol a grwpiau ffydd perthnasol, gan eu cefnogi i ymuno â chymunedau y gallant berthyn iddynt.
   - Gweithio â chydweithwyr i hyrwyddo cyfleoedd i grwpiau myfyrwyr ar draws eu haelodaeth ar adegau pwysig o'r flwyddyn, hy yr Wythnos Groeso a Reffreshars.
   - Sicrhau bod pob cymdeithas a phrosiect ffydd yn gweithredu yn unol â pholisïau a gwerthoedd Undeb Aber, yn bennaf o ran darpariaethau iechyd a diogelwch.
   - Gweithio â chydweithwyr Prifysgol Aber yn yr adran rheoli cyfleusterau i ddarparu mynediad at y cyfleusterau sydd eu hangen at weithgareddau grwpiau myfyrwyr.
   - Dadlau dros TîmAber a magu perthynas ag Undeb Aber.
   - Hwyluso a chefnogi cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddol i weithredu'n effeithiol ac i gynnal/mynychu digwyddiadau gan gynnwys trafnidiaeth (ee bysus gwennol), llety, llogi ystafelloedd ac ati.
   - Cynnal cysylltiad priodol â chyn-fyfyrwyr a'r adran gyn-fyfyrwyr

**2. Cysylltiadau a pherthnasoedd**

- Cefnogi y swyddogion myfyrwyr perthnasol i gynrychioli myfyrwyr o ffydd yn effeithiol a chyflawni eu blaenoriaethau.
- Gweithio gyda Swyddogion allweddol yr Undeb i sicrhau y caiff anghenion ffydd myfyrwyr eu deall a'u hateb.
- Tynnu grwpiau ffydd myfyrwyr ac unigolion i mewn i'r prosiectau perthnasol a arweinir gan y gymuned a'r Brifysgol lle bo'n briodol.
- Meithrin cysylltiadau ag adrannau perthnasol y Brifysgol a sefydliadau ffydd lleol a grwpiau i greu cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol a phrosiectau cydweithredol.

**3. Dyletswyddau Eraill:**

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all gynorthwyo â chyflawni'r tasgau uchod yn effeithiol, a all hefyd hyrwyddo buddiannau Undeb Aber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddo a chynnal gwerthoedd a pholisïau Undeb Aber yn gadarnhaol.
- Hyrwyddo Undeb Aber a'n gwaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb Aber.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel bo'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb Aber trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau ar draws yr Undeb. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo gweithgareddau a gwasanaethau adrannau eraill
- Mae ystyriaethau amgylcheddol ac arferion gorau parthed yr amgylchedd yn gyfrifoldeb i holl staff Undeb Aber
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

NEWIDIADAU YN Y SWYDD DDISGRIFIAD

Gall y disgrifiad swydd hwn newid unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deiliad y swydd. Serch hynny, mae'n gosod prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deiliad y swydd, a gall fod disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.

MANYLEB YR UNIGOLYN - CYDLYNYDD CYMUNEDAU FFYDD

| MEINI PRAWF | Angenrheidiol | Cais | Cyfweliad |
|---|---|---|---|
| CYMWYSTERAU | | | |
| Addysg gyffredinol dda, cyfystyr â Safon Uwch/Lefel A | Hanfodol | √ | |
| Gradd Prifysgol/Coleg neu gyfystyr | Dymunol | √ | |
| PROFIAD | | | |
| Profiad o weithio'n effeithlon ar eich liwt eich hun | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n denu diddordeb | Hanfodol | √ | |
| Profiad o gynllunio a rhoi ymgyrchoedd hyrwyddol a chyfathrebu ar waith | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o reoli, ysgogi a hyfforddi gwirfoddolwyr mewn rolau annibynnol, dan eu cyfarwyddyd eu hun | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o ddefnyddio ystod eang o gyfryngau ar-lein gan gynnwys rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein a datblygu/rheoli cynnwys gwefan | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o ddatblygu a chefnogi prosiectau | Hanfodol | √ | √ |
| Dealltwriaeth o'r heriau y mae myfyrwyr rhyngwladol ac o gefndiroedd diwylliannol lleiafrifoledig yn eu hwynebu, gan dynnu ar eich profiad eich hun neu eich cymuned | Dymunol | √ | √ |
| Profiad o gefnogi cynrychiolwyr gwleidyddol/cymunedol | Dymunol | √ | √ |
| Profiad blaenorol o weithio mewn sefydliad a arweinir yn ddemocrataidd a chefnogi cydlyniant cymunedol | Dymunol | √ | √ |

| GWYBODAETH | | | |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion a themâu cyfoes yn ymwneud â myfyrwyr rhyngwladol mewn Addysg Uwch ac Undebau Myfyrwyr | Hanfodol | √ | √ |
| Dangos diddordeb mewn neu brofiad o feithrin cymunedau myfyrwyr o ddiddordeb cyffredin neu seiliedig ar ffydd, gyda brwdfrydedd amlwg dros gyflawni newid ystyrlon a gaiff effaith fuddiol ar fywydau eraill | Dymunol | √ | √ |
| NODWEDDION/SGILIAU | | | |
| Y gallu i weithio'n effeithlon mewn tîm a rhoi grym i eraill a'u hysgogi | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i fynd ati'n weithgar ar eich liwt eich hun ac aros yn bwyllog dan bwysau. Yn gallu eich ysgogi eich hun ac yn annibynnol | Hanfodol | | √ |
| Y gallu i fod yn greadigol ac arloesol wrth hyrwyddo ystod eang o wasanaethau/gweithgareddau i gynulleidfa eang ac amrywiol | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i drin pobl a chyfathrebu ar lefel ragorol (Ysgrifennu a Llafar) | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i feithrin a chynnal perthnasoedd gweithio cryf | Hanfodol | | √ |
| Y gallu i orchfygu rhwystrau a phroblemau mewn ffordd adeiladol | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i reoli prosiectau | Hanfodol | √ | √ |
| Bod yn hyderus gyda'r gallu i gysylltu â myfyrwyr gan gynnwys mynd atynt a siarad | Hanfodol | √ | √ |
| Medrusrwydd mewn TG, gan gynnwys bod yn gyfarwydd â rhaglenni MS Office, gyda dealltwriaeth da o offer cyfryngau cymdeithasol megis Facebook, Twitter a gwaith gwefan | Dymunol | √ | √ |
| GWERTHOEDD A MOESEGAU | | | |
| Yr awydd i weithio mewn awyrgylch democrataidd dan arweiniad myfyrwyr a rhoi myfyrwyr ar y blaen | Hanfodol | | √ |
| Deall ac ymrwymo i gyfleoedd teg | Hanfodol | | √ |
| Yr awydd i weithio mewn sefydliad sy'n gwasanaethu aelodaeth o gefndiroedd diwylliannol amrywiol | Hanfodol | | √ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn ymroddgar, cadarnhaol, mentrus ac agos-atoch gydag ymagwedd weithgar di-ffael | Hanfodol | √ | √ |
| Yn gallu dangos safonau uchel o onestrwydd personol | Hanfodol | | √ |